**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU 17/10/2019**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**
**PONTRHYDFENDIGAID AM 7.00PM**

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Gyngh. Angharad Jones (Cadeirydd) bawb i'r cyfarfod misol.

**2. YN BRESENNOL:** Y Gyngh. Angharad Jones (Cadeirydd); Y Gynghorwraig Clare Hughes; Y Cynghorydd John Jones; Y Gynghorwraig Laura Jones; Y Cynghorydd Gareth Owen (Dirprwy-Gadeirydd); Y Cynghorydd Alun Price-Jones; Y Cynghorydd Doug Rowbotham; Eleri Thomas, Clerc & Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCC yr Heddlu) John Evans a Tanya Friswell Swyddog Datblygu Pentir Pumlumon (yn ystod y Cyflwyniad Pentir Pumlumon).

**3. YMDDIHEURIADAU**
Y Gyngh. Mair Jones (oherwydd salwch), Y Cyngh. Non Jones &'r Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd-Davies ( wedi mynychu'r Noson Lawen yn y Pafiliwn)

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU:**
Diweddarodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans aelodau mewn perthynas â digwyddiadau diweddar, sef:

1. Dygwyd coed o Goedwig Tywi. Mae Tîm Trosedd yr Heddlu yn rhoi sylw i'r mater.
2. Medi 2019: dim digwyddiadau yn ymwneud â lladradau, byrgleriaethau, trais neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.
3. Chwarel Hendre, Ystrad Meurig: troseddwyr wedi torri i mewn; gatiau heb wedi'u gorfodi'n agored.
4. Dygwyd cerbyd VW o leoliad ger yr ysgol yn ystod oriau mân y bore'n ystod mis Medi. Meddylid bod y troseddau wedi'i trefnu ac yr oedd un cerbyd wedi'i ddarganfod ym Mhenllergaer.
5. Cafwyd hyd i un beic modur a ddygwyd o eiddo yn Llanddewi-brefi ar ystâd o dai yn Ne Cymru. Teimlwyd y byddai darparu Camerau Teledu Cylch Cyfyng yn fuddiol. Dywedwyd bod rhai trefi'n cymryd cyfrifoldeb am ddarparu Camerau Teledu Cylch Cyfyng. Gallai grantiau fod ar gael; gall CAVO ddarparu gwybodaeth ar sut y gellid ei weithredu a'i ariannu. Bydd angen cymeradwyaeth yr heddlu gan fod rheoliadau ar waith ee Ni all camerau teledu cylch cyfyng wynebu rhai cyfeiriadau.
6. Troseddau Casineb: Yn aml targedir Grwpiau Lleiafrifoedd.
7. Gwthir cyffuriau o ddinasoedd mawrion i drefi bach. O ran tyfu cyffuriau o fewn y Pentref, dylid trosglwyddo gwybodaeth i'r Heddlu.

**5. DATGAN DIDDORDEB:** Dim wedi'u datgan.

**6. CYFLWYNIAD: PENTIR PUMLUMON: Tanya Friswell**
Mae Pentir Pumlumon yn ymroi i ymwneud â gwelliannau cymunedol. Gofynnwyd pa argraff oedd ymwelwyr yn cael o Bontrhydfendigaid a Ffair Rhos wrth deithio heibio. Derbyniodd y pentref nifer o gymorth ariannol yn ystod y blynyddoedd diweddar i ariannu llochesi bws, potiau blodau, meinciau

ac ati. Adroddwyd bod 66 o ddisgyblion yn yr ysgol gynradd ar hyn o bryd; rhai teuluoedd yn anfon eu plant i ysgolion Aberystwyth. Y 6ed Dosbarth wedi cau yn Nhregaron.

Cyfeiriwyd at y Cynllun Lleoedd y Cyngor Sir ac eglurwyd nad oedd y Cyngor Cymuned wedi tanysgrifio i'r Cynllun.
Bu Pentir Pumlumon ynghlwm â digwyddiadau'n ymwneud â'r Ystad Hafod yn ddiweddar a gofynnwyd tybed os oedd yn bosibl i ddefnyddio'r Pafiliwn i ddatblygu gweithgareddau pellach. Defnyddir y Pafiliwn ar hyn o bryd i lwyfannu'r Eisteddfod; sesiynau cneifio; Cynhadledd Tyst Jehofa x 4 y flwyddyn; Noson Lawen; Cynhadledd Un Llais Cymru. Holwyd tybed a fyddai'n bosibl i gynnig amrywiaeth pellach ee Bandiau; Dawns Mis Mai. Cytunwyd y byddai Tanya Friswell yn cysylltu â Mrs Neli Jones i drafod ymhellach.
Ystyriwyd trefnu digwyddiadau newydd yn y pentref megis codi marquee a digwyddiadau ymhellach ee bandiau; Ffair Gelf a Chrefft.

Trafodwyd Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur, Pwyllgor y Fynwent a'r Mynachlog. Coffi/ Te ar gynnig yn yr Abaty. Cyngh. Ifan Lloyd Davies; Angharad Jones a Clare Hughes ynghlwm â'r Ymddiriedolaeth. Recordio Storiau/Lleisiau wedi'u hawgrymu.
Mae Tywysog Siarl ynghlwm ag Abaty Ystrad Fflur.
Soniwyd bod tai gwyliau sef Ystad Parc Teifi, 10 annedd a dderbyniodd grant sylweddol i'w hadeiladu'n wag. Er mai tai preifat ydynt, penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i son bod y tai'n dirywio ac i ofyn beth yw'r cynlluniau ar eu cyfer, yn ystod y dyfodol.
**Coed y Bont:** yn adnodd cadarnhaol ar gyfer yr ardal.
**Trafodwyd y Goleuadau Nadolig.**
**Nodwyd bod** arwyddion newydd wedi'u cyflwyno'n ddiweddar ar gyfer Ffair Rhos.

**Lle i Welliannau**
**Does dim lle i aros pan gynhelir digwyddiadau megis Rasus Tregaron;** pobl yn gorfod aros ymhell i ffwrdd megis Aberystwyth.
**Meddylid y gellir defnyddio'r hen swyddfa bost** at ddibenion masnachol.
**Gellir gwneud defnydd ychwanegol o** gyfryngau cymdeithasol megis Fb; Instagram a Thrydar.
Gellir dilyn Pentir Pumlumon ar Fb.
**Dim garej** ar gael i werthu petrol.
**Gresynwyd y ffaith nad oedd nifer** o fusnesau ar gynnig o Bonterwyd/Pontyrfynach hyd at Dregaron. 3 Tafarn ar gael: Y Llew Du yn newid dwylo, Y Llew Coch a'r Teifi Inn, Ffair Rhos.
**I gloi, dywedodd Tanya Friswell ei bod yn gobeithio bod y naratif rhwng y Cyngor Cymuned a'r Pentir Pumlumon wedi cychwyn.**

**7. CADARNHAU COFNODION O'R 19eg o Fedi 2019**
**CYNIGIWYD (Cyngh. John Jones)**, **EILIWYD (y Gyngh. Clare Hughes)** a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol bod Cofnodion y Cyfarfod o'r 19eg o Fedi 2019 yn gywir ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones arwahan i'r canlynol:

7.1 **Mae canghennau perth yn lledaenu dros yr Arwydd Cyflymder** 30mya ger Tre Mafon: i ofyn i GSC tybed a fyddai'n bosibl i godi'r postyn ychydig yn uwch a gostwng rhif cyflymder y traffig i 20mya. Dylai ddarllen *Tremafon.*

## 8. MATERION YN CODI

8.1 **Glan-yr-Afon**: parthed tanc olew, nododd ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion nad oedd y tir ble yr oedd y tanc wedi'i leoli ar dir comin cofrestredig ac ni ellir canfod tystiolaeth o lwybr cerdded yn rhedeg trwy'r ardal. Nid oedd yn ymddangos bod gan y cyngor sir gyfrifoldeb, mewn perthynas â'r tir. Cyfrifoldeb perchennog/rheolwr y tir yw trefnu i gael gwared â'r tanc olew a thrafod materion tresmasu os dymunir. *Ymholiadau'n mynd yn eu blaen.*

8.2 **Arolwg Ardal Chwarae Pantyfedwen** - Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) 2019: Y mae'r Arolwg yr Archwiliad Ardal Chwarae ROSPA wedi'i gario allan ym mis Mehefin 2019 ac y mae sylw wedi'i glustnodi i'r materion sy'n codi o fewn yr Adroddiad. Bwriedir trwsio'r offer pren yn ystod y Gwanwyn.

8.3 **Arwydd Ffordd: Lleihau Cyflymder – Araf – Slow** Gofynnwyd a ellid gosod arwydd arall mewn lle wrth agosáu at Ffair Rhos. Trafodwyd y cynnig.

8.4 **Cynhadledd Un Llais Cymru:** Dydd Sadwrn 5ed Hydref 2019: Pafiliwn y Bont. CCB am 2.15pm (yn rhad ac am ddim). Nid oedd Cyngor Cymuned Ystrad Fflur wedi'i gynrychioli'n ystod y cyfarfod hwn.

8.5 **Gwasanaeth Dydd Sul y Cofio, 10fed Tachwedd 2019**, ger y Gofeb Rhyfel @ 10.45am. Unigolion / Sefydliadau i wneud trefniadau annibynnol ynghylch prynu torchau. Yng ngofal y Parch. Aled Lewis; John Jenkins i chwarae'r trwmped a Mr Robert Jones, 3 Heol y Bannau i osod y dorch. Bydd Pobl Ifanc yn cymryd rhan yn ystod y gwasanaeth. Bydd yn bosibl archebu torch dan law Mr DJ Edwards, Tregaron a hysbysu'r Cynghorydd John Jones erbyn dydd Iau 7fed Tachwedd. Disgwylir cyfraniad gan Gynghorwyr yn ystod y Gwasanaeth.

8.6 **Mae angen tocio tair coeden ar Ystâd Maesydderwen.** *i atgoffa Tai Ceredigion.*

## 9. GOHEBIAETH

9.1 **Teledu Cylch Cylch Cyfyng Dyfed-Powys: Tu ôl i'r llenni: Comisynydd yr Heddlu a Throsedd** Dyfed-Powys: Dafydd Llywelyn: Gwahoddiad i Gyngorydd Cymuned i fynychu digwyddiad gyda'r nos, gan roi golwg y tu ôl i'r llenni ar weithredu teledu cylch cyfyng yn llwyddiannus mewn trefi ar draws ardal Llu Dyfed-Powys. Bydd y noson yn gyfle unigryw i ymweld â llwyfan gwylio teledu cylch cyfyng yr Heddlu gan roi profiad uniongyrchol o sut mae'r camerau'n cael eu defnyddio i ddiogelu cymunedau. 8fed Hydref 2019, 17:30-19:30, Pencadlys yr Heddlu, Llangynnwr, Caerfyrddin.

9.2 **Cynllun Corfforaethol Drafft Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2020-2025.** Gwahoddiad i fynegi barn am gynigion ar gyfer gwella mewn rhan y Cynllun Corfforaethol Drafft ar gyfer 2020-2025 ar gael ar safle ar y we

http://www.mawwfire.gov.uk. Bydd yr Ymgynghoriad yn rhedeg am 10 wythnos o'r 30.09.2019-6.12.2019.

**9.3** **Deall Lleoedd yng Nghymru:** gwefan ddwyieithog sy'n cyflwyno data am fwy na 300 o drefi a chymunedau yng Nghymru. Pwrpas yr adnodd hwn yw cefnogi gweithgareddau cynllunio llawr gwlad mewn trefi. Ariannwyd gan Carnegie UK a Llywodraeth Cymru; cyfle i ddarganfod mwy am yr economi, gwasanaethau a phobl, www.understandingwelshplaces.wales #cymuned #cynllunio

**9.4** **Pro Forma Cynghorau Tref a Chymuned:** Rhaid i awdurdodau perthnasol gyhoeddi datganiad taliadau a wneir i'w haelodau. Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon mewn ffurf a lleoliad sydd yn hygyrch i aelodau'r cyhoedd heb fod yn hwyrach na 30 Medi ar ôl ddiwedd y flwyddyn y mae'r taliadau yn ymwneud â hi ac yn yr un amserlen a ddarperir hefyd i'r Panel. Taliadau a wnaed gan gynghorau cymuned a thref i aelodau wedi'u henwi fel: Taliadau mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth; defnyddiau traul ac ati; Taliadau cyfrifoldeb; Lwfansau a delir i Faer/Cadeirydd a Dirprwy Faer/Dirprwy Gadeirydd; Iawndal ar gyfer colled ariannol; Costau a dynnir o ran teithio a chynhaliaeth; Ad-dalu costau gofal. Adroddiadau DIM i'w gyhoeddi a'i ddarparu i'r Panel erbyn y 30ain Medi.

**9.5** **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2020**
Yn unol â gofynion Adran 147 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, amgaeewyd dolen i Adroddiad Blynyddol drafft y Panel, Chwefror 2020, a fydd yn effeithio blwyddyn ariannol 2020/21, llythyr eglurhaol oddi wrth y Cadeirydd, Mr John Bader. Mae hwn hefyd wedi cael ei anfon i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a phartïon eraill sydd â diddordeb.
Gallwch ddod o hyd i ' r adroddiad drwy ddefnyddio' r ddolen ganlynol:
Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2019
Nodwch fod Atodiad 5 (Tudalen 77) yn grynodeb o'r dyfarniadau newydd a 'r rhai diweddaraf ar gyfer eleni.
Er mwyn ateb y gofyniad yn y Mesur i gyhoeddi'r adroddiad erbyn 28 Chwefror 2020, rhaid i unrhyw sylwadau y dymunir eu gwneud am yr adroddiad gael eu derbyn erbyn **10 Rhagfyr 2019.**

**9.6** **75ed Cylchwyl Buddugoliaeth yn Ewrop.** 8-10 Mai 2020. Anogir y rhai sy'n trefnu gwasanaethau i ofyn i gynrychiolydd y gymuned i ddarllen y Deyrnged i'r Miliynau, y gellir ei lawrlwytho www.veday75.org a hefyd i gynnwys bugler neu drwmpedwr lleol i chwarae'r Last Post a Reveille. Bydd angen cofrestru cyn gynted â phosibl a chyn 1af Mai 2020. www.veday75.org.

**9.7** **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**: Adroddiad Cyflwr y Genedl - http://www.olderpeoplewales.com/ga/reviews/sotn.aspx defnyddir yr adroddiad fel llinell sylfaen i ddangos lle mae angen gweithredu i wella bywydau pobl hŷn.

**9.8** **Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru:** Cynhaliwyd y cyfarfod yn Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron ar ddydd Mercher 9 Hydref 2019 am 7pm. Gwnaeth Cadeirydd y Bwrdd Safonau Ceredigion annerch y Cyfarfod.

**9.9 Gohebiaeth pellach: Er gwybodaeth yn unig.**

**10. CYLLID**

**10.1 Cyflog y Clerc: Medi 2019**: £193.83 (Cyflog Gross).

**10.2 Arwydd ar gyfer Ffair Rhos** dan law'r Gyngh. Laura Jones £133.15 (gan gynnwys TAW)

**10.3 Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion:** Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir.
*Yn disgwyl taliad.*

**10.4 Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned: PENDERFYNWYD** clustnodi sylw pellach i'r Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned yn ystod y cyfarfod nesaf.

**11. CYNLLUNIO**

**11.1 Cyngor Sir Ceredigion**: **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion cyfarfod diweddar.

**11.2 Ymgynghoriad Cynllunio**: **3 Ymgynghoriad Cynllunio**

1. **Diwygiadau i Adran Tai Polisi Cynllunio Cymru a chyngor a chanllawiau cysylltiedig**
   Mae'r ymgynghoriad yn holi barn am y newidiadau arfaethedig i Adran Tai *Polisi Cynllunio Cymru.* Cafodd y newidiadau eu gwneud mewn ymateb i'r 'Cais am Dystiolaeth' a luniodd ran cyntaf yr adolygiad o gyflenwi tai drwy'r system gynllunio.
   Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys newidiadau canlyniadol i'r cyngor gweithdrefnol sydd wedi'i nodi yn *Nodyn Cyngor Technegol 1, Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai* (TAN 1) ac yn y *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.*
   Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/cyflenwi-tai-trwyr-system-gynllunio?_ga=2.12179636.1277300796.1570440687-479888744.1570440687 Daw yr ymgynghoriad i ben ar **20 Tachwedd 2019**
2. **Diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru ynghylch defnyddio pwerau prynu gorfodol a chanllawiau wedi'u diweddaru ar y weithdrefn prynu gorfodol yng Nghymru.**
   Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn am y diwygiadau arfaethedig i baragraff 3.53 o *Polisi Cynllunio Cymru* i gryfhau'r gefnogaeth ar gyfer defnyddio pwerau prynu gorfodol gan Awdurdodau Lleol er budd y cyhoedd.
   i weld y ddogfen ymgynghori, ewch i wefan Llywodraeth Cymru.
3. **Canllawiau cynllunio diwygiedig mewn perthynas â llifogydd ac erydu arfordirol.** i weld y ddogfen ymgynghori, ewch i wefan Llywodraeth Cymru.

**11.3 Cyngor Sir Ceredigion: Ymgynghoriad Cynllunio A190746.**
**Ymgeisydd**: Jenkins. **Lleoliad**: Tŷ Newydd, Ffair Rhos, Ystrad Meurig. **Cynnig**: Newidiadau mewnol i'r annedd bresennol. Dymchwel adeiladau allanol presennol. **Sylwadau'r Cyngor Cymuned**: Dim Gwrthwynebiadau.

## 12. UNRHYW FATER ARALL

**12.1** **Diolchodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Alun Price Jones** a Mrs Margaret Jones am blannu 4 sach o fylbiau cennin Pedr yn ddiweddar, ar y Glas.

**12.2** **Mynegodd aelodau bryder mewn perthynas â materion amgylcheddol yng** nghyffiniau Lôn Fach.

**12.3** **Pabi Coch:** cytunwyd i atgyweirio pabïau a oedd wedi'u difrodi ac a ddefnyddiwyd ym 2018 ar gyfer Arddangosfa Sul y Cofio ger y Gofeb Ryfel. Y Cynghorydd Clare Hughes i roi sylw i'r mater a threfnu prynu pabïau ychwanegol, os oes angen.

**12.4** **Perth ger Tremafon**: angen ei docio. Dylid codi’r arwydd gan ymestyn hyd y postyn.

**12.5** **Mae coed yn tresmasu ar y ffens yng nghyffiniau Bryn Hope** a gallent fod yn rhwystr yn ystod y nos.
*i Hysbysu CSC.*

**12.6** **Cytunwyd gofyn am ddiweddariad mewn perthynas â'r cais am bont gerdded ar** gyfer y Pentref.

**12.7** **Mae dŵr yn crynhoi ar y ffordd ger Cwm Meurig**: i adrodd i GSC.

***Daeth y cyfarfod i ben am*** **9.00 pm.**

## 13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Cyfarfod Misol Nos Iau 21ain Tachwedd 2019 at 7pm.

= = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = =
(Llofnod/Dyddiad)